COFNODION CYFARFOD Y IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU (A) A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 13 MAWRTH 2018, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| SE Baldwin | PA Davies | DK Edwards | AA Pucella |
| JE Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

DG Owen

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Katie Brook | Uwch Swyddog Trwyddedu (Technegol) |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

83. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

84. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Trwyddedu ar 12 Ionawr 2018 yn cael eu cymeradwyo yn gofnod gwir a chywir.

85. CAIS AM DRWYDDEDU CERBYD LLOGI PREIFAT

Gwnaethpwyd y cais gan Richard Singleton i drwyddedu Mercedes S350L gyda rhif cofrestru newydd sef G20 UPS (KY63 HLW yn gynt) fel Cerbyd Llogi Preifat ar gyfer 4 person. Nid oedd y cerbyd yn newydd a chafodd ei gofrestru yn y DVLA am y tro cyntaf ar 18 Chwefror 2014.

Yna aeth yr aelodau a'r swyddogion ymlaen i archwilio'r cerbyd oedd ym maes parcio y Swyddfeydd Dinesig, gan ohirio'r cyfarfod at y diben hwn.

Wrth ailddechrau'r cyfarfod, dywedodd y Rheolwr Tîm (Trwyddedu) wrth yr Aelodau fod y cerbyd wedi teithio 23,440 milltir hyd yn hyn. Ychwanegodd nad yw'r cais yn berthnasol i'r Polisi Cerbydau Llogi Preifat a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu. Nid oedd y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ond roedd canllawiau polisi penodol mewn perthynas â thrwyddedu Cerbydau Llogi Preifat am y tro cyntaf nad oeddent yn cyd-fynd â'r canllawiau polisi wedi'u nodi ym mharagraff 4.4 yr adroddiad. Mae hanes gwasanaeth llawn o'r cerbyd wedi'i roi gan yr ymgeisydd.

Nododd aelod o'r Is-bwyllgor y gwelwyd wrth archwilio'r cerbyd, fod gwadn y teiars wedi'u treulio'n eithriadol a gofynnodd i Mr Singleton beth oedd yn ei wneud am hyn. Ymatebodd Mr Singleton gan ddweud ei fod wedi bwcio i'r teiars gael eu newid nes ymlaen heddiw i dderbyn set newydd o deiars.

PENDERFYNWYD: Ystyriodd yr Is-bwyllgor y cais i drwyddedu'r cerbyd â'r rhif cofrestru G20 UPS fel Cerbyd Llogi Preifat.

Nododd yr Is-bwyllgor nad yw'r cerbyd yn berthnasol i baragraff 2.1 Polisi Trwyddedu'r Cyngor o ganlyniad i'w oedran.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor yr amgylchiadau eithriadol dan baragraff 2.2.5 y Polisi, a phenderfynodd, o ganlyniad i ansawdd mewnol ac allanol eithriadol y cerbyd, a'r safonau diogelwch eithriadol, fod yr Aelodau'n cymeradwyo'r cais.

86. CAIS I DRWYDDEDU CERBYD LLOGI PREIFAT

Gwnaethpwyd y cais gan Forge Travel Limited i drwyddedu Volkswagen Transporter, rhif cofrestru'r cerbyd GJ16 XJP fel Cerbyd Llogi Preifat ar gyfer 8 person. Nid oedd y cerbyd yn newydd a chafodd ei gofrestru yn y DVLA am y tro cyntaf ar 7 Ebrill 2016.

Nid oedd yr ymgeisydd yn gallu bod yn bresennol oherwydd salwch ac anfonodd gynrychiolydd a llythyr ar ei ran i ategu ei gais.

Cafwyd y cyfarfod ei ohirio'n fras i'r aelodau a'r swyddogion archwilio'r cerbyd ym maes parcio'r Swyddfeydd Dinesig.

Wrth ailddechrau'r cyfarfod, dywedodd y Rheolwr Tîm (Trwyddedu) wrth yr Aelodau fod y cerbyd wedi teithio 13,906 milltir hyd yn hyn. Ychwanegodd nad yw'r cais yn berthnasol i'r Polisi Cerbydau Llogi Preifat a gymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor Trwyddedu. Nid oedd y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ond roedd canllawiau polisi penodol mewn perthynas â thrwyddedu Cerbydau Llogi Preifat am y tro cyntaf nad oeddent yn cyd-fynd â'r canllawiau polisi wedi'u nodi ym mharagraff 4.4 yr adroddiad.

Gan fod y cerbyd wedi teithio mwy na 10,000 milltir a'i fod yn fwy nag un flwyddyn, gofynnodd yr aelodau pam nad yw wedi cael gwasanaeth eto.
Ymatebodd yr ymgeisydd trwy ddweud bod y cerbyd ar Drefn Gwasanaeth Hyblyg (LongLife Service) sy'n gynllun gan Volkswagen. Mae'r olew a ddefnyddir yn y car yn golygu y gellir defnyddio'r cerbyd am hyd at 18,000 milltir heb wasanaeth (neu 24 mis). Credodd yr ymgeisydd na fydd y cerbyd yn cyrraedd 18,000 cyn mis nesaf.

PENDERFYNWYD: Ystyriodd yr Is-bwyllgor gais i drwydded cerbyd â'r rhif cofrestru GJ16 XJP fel Cerbyd Llogi Preifat.

Nododd yr Is-bwyllgor nad yw'r cerbyd yn berthnasol i baragraff 2.1 Polisi Trwyddedu'r Cyngor o ganlyniad i'w oedran.

Ystyriodd yr Is-bwyllgor yr amgylchiadau eithriadol dan baragraff 2.2.5 y Polisi a phenderfynon nhw , o ganlyniad i ansawdd mewnol ac allanol eithriadol y cerbyd, a'r safonau diogelwch eithriadol, gytuno i gymeradwyo'r cais.

87. EITEMAU BRYS

Nid oedd dim materion brys.

88. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Dan Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, fod y cyhoedd yn cael ei wahardd o'r cyfarfod tra bod yr eitemau busnes hyn yn cael eu

hystyried gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A y Ddeddf hon.

Yn dilyn y prawf o fuddiant y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, ystyried yr eitemau canlynol mewn preifat, gyda'r cyhoedd wedi'i wahardd o'r cyfarfod, gan y ystyriwyd, ym mhob amgylchedd sy'n ymwneud â'r eitemau, y byddai buddiant y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn drech na fuddiant y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth, gan y byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeiswyr wedi sôn amdanynt.

89. CYMERADWYO'R COFNODION WEDI'U HEITHRIO

PENDERFYNWYD: Bod cofnodion wedi'u heithrio o gyfarfod yr Is-bwyllgor Trwyddedu ar 12 Ionawr 2018 yn cael eu cymeradwyo yn gofnod gwir a chywir.

90. CEISIADAU I ADNEWYDDU TRWYDDEDAU

91. CEISIADAU I ADNEWYDDU TRWYDDEDAU

92. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

93. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

94. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

95. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

96. CEISIADAU I GYMERADWYO TRWYDDEDAU

Daeth y cyfarfod i ben am 14:10